OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2011 Rhif. 352 (Cy.54)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

# Gorchymyn Traffordd yr M4 a Chefnffordd yr A4232 (Cyffordd 33 (Gorllewin Caerdydd), Caerdydd) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro a Therfyn Cyflymder 50 MYA Dros Dro) 2011

*Gwnaed* *11 Chwefror 2011*

*Yn dod i rym* *18 Chwefror 2011*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Draffordd Llundain – De Cymru (yr M4) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y draffordd") a chefnffordd Llundain – Abergwaun (yr A4232) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig a chyfyngu arno ar ddarnau penodedig o'r draffordd a'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) a phob pŵer galluogi arall(2), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 18 Chwefror 2011. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Traffordd yr M4 a Chefnffordd yr A4232 (Cyffordd 33 (Gorllewin Caerdydd), Caerdydd) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro a Therfyn Cyflymder 50 MYA Dros Dro) 2011.

**2.** —1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio mewn cysylltiad â'r gwaith sydd wedi arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod sy'n dechrau am 19:30 o'r gloch ar 18 Chwefror 2011 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud oddi yno'n barhaol;

ystyr "y darn o'r gefnffordd" ("*the length of the trunk road*") yw'r darn o gefnffordd yr A4232 wrth Gyffordd 33 (Gorllewin Caerdydd) yn Ninas a Sir Caerdydd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn;

ystyr "y darnau o'r draffordd" ("*the lengths of the motorway*") yw'r darnau hynny o Draffordd yr M4 wrth Gyffordd 33 (Gorllewin Caerdydd) yn Ninas a Sir Caerdydd a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn cyfeirio at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd, ar hyd y darn o'r draffordd a bennir yn Atodlen 1.

**4.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd, yn gyflymach na 50 milltir yr awr ar y darnau o'r draffordd a'r gyffordd a bennir yn Atodlen 2.

**5.** Mae darpariaethau rheoliad 3 o Reoliadau Traffig Traffyrdd (Terfynau Cyflymder) 1974**(3)**, i'r graddau y maent yn gymwys i'r darnau o'r draffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn, drwy hyn yn cael eu hatal yn ystod yr adegau y bydd y cyfyngiad a bennir yn erthygl 4 yn weithredol.

**6.** Ni fydd darpariaethau erthyglau 3 a 4 yn gymwys ond ar yr adegau ac i'r graddau y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiad a'r cyfyngiad y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

**7.** Bydd y Gorchymyn hwn yn parhau am 12 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig y 11 Chwefror 2011

***J COLLINS***
Dirprwy Gyfarwyddwr, Cyflenwi Seilwaith
Llywodraeth Cynulliad Cymru

**(1)** 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.
**(2)** Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.
**(3)** O.S. 1974/502.

## YR ATODLENNI

### ATODLEN 1

Y darn cyfan o ffordd ymadael tua'r gorllewin y draffordd wrth Gyffordd 33 (Gorllewin Caerdydd).

### ATODLEN 2

Y darn cyfan o gerbytffordd gylchredol system gylchu'r draffordd wrth Gyffordd 33, Gorllewin Caerdydd.

Y darn cyfan o ffordd ymadael tua'r gorllewin y draffordd wrth Gyffordd 33, Gorllewin Caerdydd.

Y darn cyfan o ffordd ymadael tua'r dwyrain y draffordd wrth Gyffordd 33, Gorllewin Caerdydd.

Y darn hwnnw o gerbytffordd tua'r de y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt wrth ei chyffordd â cherbytffordd gylchredol system gylchu'r draffordd wrth Gyffordd 33, Gorllewin Caerdydd hyd at bwynt 200 o fetrau i'r de o ganolbwynt trosbont Llansanffraid-ar-Elái.